Papur y Bwrdd

7fed Mai 2015

Teitl y papur:	Adroddiad Fframwaith Perfformiad 2014/15, Adroddiad ar gyfer diwedd y flwyddyn (1 Ebrill 2014 to 31 Mawrth, 2015)
Cyfeirnod y papur:	**CNC B B 26.15**
Paratowyd y papur gan:	John Hogg

Diben y papur:	**Ystyried perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2014/15**
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd: • Lywodraethu perfformiad a chraffu arno, er mwyn gallu adrodd ynghylch hynny i Lywodraeth Cymru • Darparu cyngor a chymorth ynghylch addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad • Nodi'r Gofrestr Risg Weithredol ddiweddaraf
A oes angen penderfyniad?	Oes – cymeradwyo'r adroddiad ynghylch perfformiad

Effaith: Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr amgylchedd**: Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed o ran y dangosyddion a'r targedau 'Amgylchedd Da' ar sail blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol ac ar sail ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15. **Effaith ar yr economi**: Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed o ran y dangosyddion a'r targedau 'Da i Fusnes' ar sail blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol ac ar sail ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15. **Effaith ar y gymuned**: Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed o ran y dangosyddion a'r targedau 'Da i Bobl' ar sail blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol ac ar sail ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15. **Effaith ar wybodaeth**: Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed o ran y dangosyddion a'r targedau 'Gwybodaeth Dda' ar sail blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol ac ar sail ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15.

Materion

1. Yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15, sef blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014/17, bu i ni nodi ein huchelgeisiau. Mae'r rheini yn deillio o ofynion Llywodraeth Cymru a nodwyd yn ein Llythyr Cylch Gwaith, yr angen parhaus i ni wireddu manteision yr Achos Busnes dros ein sefydlu, a'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn i ni allu bod yn annibynnol a darparu gwerth am arian.

2. Datblygwyd ein Fframwaith Perfformiad er mwyn ymateb i'r gofyniad penodol yn ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2014/15. Y Fframwaith yw un o brif ddulliau'r Bwrdd o graffu ar yr hyn yr ydym yn ei gyflawni ac o gefnogi gwaith cynllunio strategol. Cymeradwywyd y Fframwaith i'w ddefnyddio yng nghyfarfod y Bwrdd ar 14 Mai 2014.

3. Mae'r rownd ddiwedd blwyddyn o adrodd ynghylch perfformiad, ar gyfer y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, wedi'i chwblhau erbyn hyn ac mae'r adroddiad ynghylch perfformiad wedi'i baratoi er mwyn i'r Bwrdd graffu arno cyn iddo gael ei anfon i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn sail i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15.

4. Mae cofrestrau risg yn dangos y berthynas rhwng cyflawni a rheoli risg.

Crynodeb

5. Mae adroddiad y Fframwaith Perfformiad (Atodiad 1) yn cynnwys 3 elfen bendant:

- Adroddiad Cryno ynghylch Perfformiad, sef trosolwg un dudalen o'n perfformiad ar sail Cynllun Corfforaethol 2014/17, Cynllun Busnes 2014/15 a'r Achos Busnes dros greu Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Adroddiadau ynghylch Cynnydd sy'n nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt ein dangosyddion a'n mesurau perfformiad corfforaethol ar gyfer pob un o'n pum thema "Da".
- Dangosfwrdd y Cynllun Busnes sy'n rhoi trosolwg un dudalen o'r cynnydd yr ydym yn ei wneud o safbwynt targedau ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15 a nifer fach o ddangosyddion.

6. Mae'r Gofrestr Risg Weithredol (Atodiad 2) yn dangos yr ystyriaeth ddiweddaraf a roddwyd (ym mis Mawrth 2015) i'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n gwaith cyflawni.

7. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Lywodraethu perfformiad a chraffu arno, er mwyn gallu adrodd ynghylch hynny i Lywodraeth Cymru
- Darparu cyngor a chymorth ynghylch addasrwydd parhaus y Fframwaith Perfformiad
- Nodi'r Gofrestr Risg Weithredol ddiweddaraf.

8. Mae manylion yr adroddiad cryno ynghylch perfformiad a'r adroddiadau ynghylch cynnydd i'w gweld yn Atodiad 1, a gofynnir i'r Bwrdd ystyried ein perfformiad. O droi at Ddangosfwrdd y Cynllun Busnes, mae ein perfformiad cyffredinol ddiwedd y flwyddyn o'i gymharu â'r hyn yr oeddem yn disgwyl ei gyflawni ar ddiwedd Cyfnod 2 i'w weld yn y tabl isod:

	Cyfnod 2 (Statws blaenorol)	Perfformiad disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn	**Perfformiad gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn**
'Gwyrdd'	25	29	**28**
'Melyn'	12	8	**9**
'Coch'	2	2	**2**
Amherthnasol[1]	2	2	**2**
Cyfanswm	41[2]	41	**41**

9. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r amrywiadau canlynol i'n perfformiad disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn:

- Ymgyngoriadau ym maes Cynllunio Gwlad a Thref – Perfformiad disgwyliedig: Coch / Perfformiad gwirioneddol: Melyn – cafodd 81% o'n hymatebion i ymgyngoriadau cynllunio eu darparu'n brydlon yn 2014/15 o gymharu â tharged o 90%. Mae'r darlun wedi gwella yn ystod y flwyddyn – 70% oedd y ganran ar gyfer Cyfnod 1, 80% oedd y ganran ar gyfer Cyfnod 2 a llwyddwyd i gyrraedd y targed o 90% yn y cyfnod terfynol.
- Gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau a chydsyniadau – Perfformiad disgwyliedig: Melyn / Perfformiad gwirioneddol: Gwyrdd – rydym wedi cyrraedd ein

[1] Dangosyddion nad yw dyfarniad coch/melyn/gwyrdd yn berthnasol iddynt ar hyn o bryd. Dyma'r dangosyddion hynny: Mae'r amgylchedd dŵr yn gwella (hy Dangosydd Ea: Yr amgylchedd dyfriol): Ar gael yn 2015/16; Mae gan bob un ohonom hyder yn ein llwyddiant gyda'n gilydd (hy Dangosydd Ob: Mynegai ymgysylltu staff): Caiff y waelodlin ei phennu ar gyfer diwedd blwyddyn 2014/15.
[2] Bellach mae gennym 36 o fesurau, sy'n fwy na'r 35 yng Nghyfnod 1, ers cynnwys mesur ynghylch pryfed peillio.

targed o 90% o safbwynt gwneud penderfyniadau'n brydlon ynghylch ceisiadau am drwyddedau a chydsyniadau. Mae ein perfformiad wedi gwella o'i gymharu â'r ganran o 89% a nodwyd yng Nghyfnod 1 a 2.

- O safbwynt chwarae ein rhan i atal colli bioamrywiaeth – Perfformiad disgwyliedig: Gwyrdd / Perfformiad gwirioneddol: Coch – ein targed oedd sicrhau bod 80% o gamau gweithredu ein rhaglen waith ar y gweill/wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd adroddiad ynghylch ein perfformiad gwirioneddol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd, a bydd yn cynnwys camau gweithredu eraill o ran bioamrywiaeth yr ydym wedi'u cwblhau ond nad oeddent yn rhan o'r mesur hwn.
- Datblygu ein dull o ymdrin â phryfed peillio – Perfformiad disgwyliedig: Gwyrdd / Perfformiad gwirioneddol: Melyn – mae'r cynllun gwaith wedi'i ddatblygu ond mae angen gwneud gwaith prisio pellach yn ystod 2015/16.
- Achos busnes: cynllunio a dyrannu adnoddau i flaenoriaethau busnes – Perfformiad disgwyliedig: Gwyrdd / Perfformiad gwirioneddol: Melyn – ein rhagolygon ar gyfer buddion sylweddoladwy sy'n arian parod ac nad ydynt yn arian parod yw £145 miliwn, sef 91% o'n targed.
- Rydym yn cyflawni ein targed o gael 99 % o asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol mewn cyflwr da. Roedd hyn yn welliant cyson drwy'r flwyddyn .

10. Bydd y Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am bob thema "Da" yn darparu crynodeb o gyflawniad ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd, a byddant yn gwahodd sylwadau gan y Bwrdd ynghylch perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Camau nesaf

11. Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r adroddiad ynghylch perfformiad, byddwn yn ei anfon i'r adran sy'n ein noddi yn Llywodraeth Cymru ac yn ei drafod â hi.

Risgiau

12. Os na fydd y Bwrdd yn craffu'n briodol ar ein perfformiad, ceir risg y gallem fethu â chyflawni ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes. Byddai'r Bwrdd hefyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd i ymgymryd â gwaith craffu a llywodraethu.

Goblygiadau ariannol

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol yn gysylltiedig â darparu adroddiad y Fframwaith Perfformiad.

Cyfathrebu

14. Bydd angen i’r adroddiad ynghylch perfformiad gael ei rannu â’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

15. Bydd copi o’r adroddiad ynghylch perfformiad yn cael ei roi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth i’r cyhoedd ac eraill.

Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

16. Amherthnasol.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad ynghylch perfformiad ar gyfer diwedd y flwyddyn 2014/15 (1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015).
Atodiad 2 – Y Gofrestr Risg Weithredol